# Y stori hyd yma

# Yr adroddiad

## Adroddiad Canol Tymor Comisiynwyr Plant y DU i Blaid Wladol y DU ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Tachwedd 2011













# Comisiynwyr Plant y DU



**Patricia Lewsley-Mooney**
Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon





**Tam Baillie**
Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban



**Keith Towler**
Comisiynydd Plant Cymru



**Maggie Atkinson**
Comisiynydd Plant Lloegr

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

**Cyd-destun** 5
Lloegr 5
Gogledd Iwerddon 5
Yr Alban 6
Cymru 6

**Egwyddorion Cyffredinol** 7
Cymryd rhan ym mhenderfyniadau 7

**Iechyd a Lles Sylfaenol** 9
Plant ag anableddau 9
Tlodi plant 10

**Mesurau Amddiffyn Arbennig** 12
Plant sy'n ceisio lloches 12
Cyfiawnder plant 14

**Casgliad** 16


Dalier sylw: Yn y ddogfen hon, mae 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc.

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym ni, bedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig, nodi Diwrnod Rhyngwladol y Plentyn 2011 drwy gyhoeddi ein hadroddiad canol tymor ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Aeth 20 mlynedd heibio ers i Lywodraeth y DU ddilysu CCUHP, sy'n cynnwys yr isafswm safonau sy'n orfodol yn rhyngwladol i'r holl blant a phobl ifanc yn y DU. Un peth pwysig wrth sicrhau atebolrwydd i'r safonau hyn yw cylch adrodd y Confensiwn, sy'n mynnu bod Llywodraeth y DU, sef Plaid y Wladwriaeth, yn rhoi gwybod am ei chynnydd bob pum mlynedd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Fe wnaeth cylchedd adrodd y DU i'r Pwyllgor ddod i ben yn 2008, ac ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad tystiolaeth ergydiol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig, gwnaethom ymrwymiad ar y cyd i bwyso'n barhaus am wireddu hawliau plant yn llawn yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae'r adroddiad canol tymor hwn, a'r dystiolaeth gysylltiedig, wedi cael ei lunio yng nghyd-destun ein deialog barhaus â phob gweinyddiaeth a holl haenau'r llywodraeth yn y DU. Nid asesiad cynhwysfawr o bob Erthygl yn CCUHP mohono. Yn hytrach, rydym wedi casglu tystiolaeth a chanolbwyntio ein gwaith ar bum maes: cyfranogiad, plant anabl, tlodi plant, plant sy'n ceisio lloches a chyfiawnder plant. Lle mae tystiolaeth, rydym yn cadarnhau cynnydd ond lle mae diffyg gwelliant amlwg ym mywydau plant a phobl ifanc, mae'n rhaid inni leisio ein pryderon.

Gwelsom gynnydd go iawn yn cael ei wneud mewn rhai meysydd gan bob gweinyddiaeth er 2008. Rydym yn croesawu ymroddiad Llywodraeth y DU i roi diwedd ar roi plant dan gadwad at ddibenion mewnfudo, a'i hymgysylltiad difrifol â'r adolygiad, gyda ni'r Comisiynwyr, i gael atebion eraill yn lle rhoi plant dan gadwad.

Rydym yn falch hefyd o gydnabod y cam sylweddol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i dderbyn darn pwysig o ddeddfwriaeth sy'n golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i osod CCUHP yn rhan o'i chyfraith ddomestig. Mae gweinidogion yn yr Alban wedi dangos eu hymrwymiad i hawliau plant hefyd drwy eu bwriad diweddar i gynnwys yn eu cyfraith eu dyletswydd i ystyried CCUHP yn briodol. Yng Ngogledd Iwerddon rydym yn croesawu datblygiadau i adolygu cyfiawnder plant ac i amddiffyn plant yn well drwy sefydlu Bwrdd Diogelu a chroesawn y cyfle i weithio gydag aelodau etholedig newydd Cynulliad Gogledd Iwerddon i ddatblygu hawliau plant. O ystyried y cynnydd yn y tair gweinyddiaeth ddatganoledig, dyma gyfle i San Steffan ddilyn eu hesiampl. Yn ôl trafodaethau diweddar yn Senedd y DU, mae cynnydd yn San Steffan yn wir yn bosibl.

Bu heriau sylweddol er 2008 ac mae newid economaidd a chymdeithasol sylweddol yn parhau yn y DU. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai fod penderfyniadau caled i'w gwneud, rydym yn poeni o ddifrif y bydd y rheini yn y gymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed yn wynebu caledi anghymesur, a bod rhai yn ei wynebu eisoes.

Yn 2008, amlinellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig bryderon ynghylch y diffyg eglurder o ran gwariant cyllideb ar blant yn y DU. Heb hyn, anodd yw monitro effaith toriadau gwariant ar blant. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y toriadau eisoes yn effeithio ar wasanaethau plant allweddol ledled y DU gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Mae'n hanfodol bod plant yn cael lle amlwg mewn cyllidebau cenedlaethol a lleol a bod gwasanaethau plant hanfodol yn cael eu gwarchod.

Yn llawer rhy aml, nid yw hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried o gwbl. Ni all neb ragweld y dyfodol ond rydym yn annog Plaid y Wladwriaeth y DU i asesu hawliau, anghenion a budd pennaf plant a phobl ifanc a'u hystyried yn briodol ac o ddifrif yn y broses benderfynu a deddfu.

Wrth wraidd ein pryderon a amlinellir yn yr adroddiad hwn y mae lefelau uchel y tlodi parhaus ledled y DU. Yn 2008, nodwyd ein barn yn ein cydadroddiad, sef ei bod yn annerbyniol i wlad mor gyfoethog â'r DU fod â 3.8 miliwn o blant (un o bob tri) yn byw mewn tlodi cymharol. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, nid yw'r ffigur hwn wedi newid. Mewn gwirionedd, mae perygl real iawn erbyn hyn y bydd y ffigur hwn yn cynyddu. Mae'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu o ganlyniad i'r Mesur Diwygio Lles, gan gynnwys gostwng y cymorth ar gyfer gofal plant, effaith y bwriad cyfredol i dalu Credyd Cynhwysol mewn un taliad gyda therfyn posibl ar lefelau budd-daliadau a gosod amodau ar daliadau budd-dal, yn bygwth gwthio rhagor o blant a phobl ifanc fregus a'u teuluoedd i dlodi. Rydym felly'n annog Llywodraeth y DU yn gryf i ailystyried effaith y diwygiadau hyn. Mae tlodi'n treiddio i bob agwedd ar fywydau plant. Mae'n tarfu ar blentyndod ond hefyd yn cyfyngu ar uchelgeisiau plant a phobl ifanc ac yn rhwystro eu cyfleoedd yn y dyfodol.

A ninnau'n hyrwyddwyr plant annibynnol, mae gennym ddyletswydd i ddal Llywodraeth y DU a'i gweinyddiaethau datganoledig yn atebol. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant ledled y DU. Er y bu cynnydd o ran hawliau plant, rydym yn dal i weld plant a phobl ifanc yn cael eu siomi.

Rhwng nawr a dechrau'r cylch adrodd nesaf yn 2014 byddwn yn parhau i ganfod y ffeithiau, i ddadansoddi'r data ac i gasglu profiadau byw plant a phobl ifanc i helpu i sicrhau bod Plaid y Wladwriaeth y DU yn cymryd ei rhwymedigaeth o ddifrif.

Rydym yn galw ar Blaid y Wladwriaeth y DU i wneud hawliau plant yn wirionedd; i ddefnyddio'r tair blynedd nesaf i wella bywydau a phrofiadau pob un plentyn; ac i wneud ymrwymiad i bawb yn y DU fod plant yn cael eu gwerthfawrogi. Yn gyfnewid, rydym ni Gomisiynwyr yn addo cefnogi Plaid y Wladwriaeth y DU pan wneir cynnydd a'i beirniadu'n briodol pan fydd yn methu.

**Maggie Atkinson**
Comisiynydd Plant Lloegr

**Patricia Lewsley-Mooney**
Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon

**Tam Baillie**
Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban

**Keith Towler**
Comisiynydd Plant Cymru

# Cyd-destun

## Lloegr

Cafwyd cynnydd gwleidyddol cadarnhaol, ond prin, ar hyrwyddo elfennau o CCUHP a'i weithredu'n gyffredinol. Er enghraifft, i nodi 20fed pen-blwydd y confensiwn yn 2009, cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ddwy ddogfen: *UNCRC: Priorities for Action* ac ymrwymiad ledled y DU ar lefel weinidogol: *Working Together, Achieving More*[1]. Ym mis Mawrth 2010, fe wnaeth y Llywodraeth flaenorol gyhoeddi adroddiad manwl ar y ffordd y mae CCUHP yn cael ei adlewyrchu yn y gyfraith a'i weithredu yn Lloegr.[2] Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth y DU gyhoeddi dogfennau o'r fath yn nodi ei chynlluniau a'i bwriadau.

Yn dilyn y datblygiad hwn, gwnaethom groesawu addewid Llywodraeth y glymblaid ym mis Mai 2010 i roi diwedd ar roi plant dan gadwad at ddibenion mewnfudo, a gweithredu proses newydd i'w symud yn 2011.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o Swyddfa'r Comisiynydd Plant gan Dr John Dunford y llynedd.[3] Derbyniodd y Llywodraeth argymhellion Dr Dunford i sefydlu Swyddfa newydd i Gomisiynydd Plant Lloegr gyda dyletswydd i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant. Mae'r Llywodraeth wrthi bellach yn ymgynghori ynghylch ei chynlluniau ar gyfer dyfodol y swyddfa. Gobeithiwn y bydd swyddfa sy'n cydymffurfio ag Egwyddor Paris, a chanddi gylch gwaith clir yn seiliedig ar hawliau, wedi'i sefydlu erbyn Adroddiad nesaf Plaid y Wladwriaeth i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r Gweinidog Gwladol, Sarah Teather AS, hefyd wedi ymrwymo'r Llywodraeth yn gyhoeddus i roi "ystyriaeth briodol" i CCUHP wrth wneud polisïau a deddfwriaeth newydd. Er nad yw'n estyn i ymrwymiad i wneud asesiadau o effaith ar hawliau plant, byddwn yn dal y Llywodraeth i'r ymrwymiad hwn.

Fodd bynnag, mae penderfyniadau economaidd a gwariant yn parhau i fygwth y broses o wireddu hawliau plant yn sylweddol, ac ni fydd y cynnydd a nodwyd uchod yn arwain at welliannau i les a hawliau plant a phobl ifanc a wireddir os caiff gwasanaethau a chymorth allweddol eu torri. [4] Yn wir, mae tystiolaeth gynyddol fod toriadau gwariant cyhoeddus wedi effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal, mae'r aflonyddwch cymdeithasol a welwyd yn nifer o ddinasoedd Lloegr yn ystod mis Awst 2011 yn golygu llawer o heriau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc a byddwn yn parhau i eirioli hawliau plant yn enwedig mewn meysydd lle gallai'r rhain gael eu bygwth gan ymateb llunwyr polisïau i ddigwyddiadau economaidd neu gymdeithasol.

## Gogledd Iwerddon

Ar ôl cyhoeddi Arsylwadau Terfynol 2008, cyflwynodd Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog (OFMDFM), mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon (NICCY) a'r Ganolfan Cyfraith Plant, fersiwn pobl ifanc i hysbysu plant a phobl ifanc. Yn nhymor yr Hydref 2009, ymgynghorodd OFMDFM â phlant a phobl ifanc mewn perthynas ag Arsylwadau Terfynol 2008 ac, mewn ymateb, rhyddhawyd rhestr o flaenoriaethau ym mis Tachwedd. Er y croesawyd hyn, nodwyd na chyhoeddwyd cynllun gweithredu hyd yma na thystiolaeth o'r ffordd yr aethpwyd ymlaen â'r blaenoriaethau.

Fodd bynnag, mae NICCY yn deall bod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrthi'n llunio dogfen sy'n amlinellu'r sefyllfa sydd ohoni i blant yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â phob un o Arsylwadau Terfynol 2008. Defnyddir y ddogfen hon wedi hynny yn fframwaith i ymgorffori camau i gyflenwi blaenoriaethau'r Arsylwadau Terfynol yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 2011-13 sydd i ddod.

Ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2011 a mandad newydd Cynulliad Gogledd Iwerddon, mae datblygu Rhaglen 2011-15 i'r Llywodraeth yn gyfle pwysig i amlinellu ymrwymiad y Weithrediaeth newydd i gyflenwi o ran CCUHP. Mae datganoli cyfiawnder a phlismona i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ym mis Ebrill 2010, a'r Adolygiad dilynol a pharhaus o Gyfiawnder Ieuenctid, hefyd yn rhoi cyfleoedd newydd i'r Weithrediaeth ymateb i Arsylwadau Terfynol 2008.

---

[1] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2009), *United Nations Convention on the Rights of the Child: Priorities for Action.* https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/01099-2009BKT-EN.pdf

[2] Adroddiad gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd i JCHR *The United Nations Convention on the Rights of the Child: How legislation underpins implementation in England* (Mawrth 2010). http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100415085344/http://www.dcsf.gov.uk/everychildmatters/_download/?id=8075

[3] Yr Adran Addysg, 12 Gorffennaf 2010, *Written ministerial statement on the independent review of the Children's Commissioner for England*. http://www.education.gov.uk/inthenews/inthenews/a0061716/written-ministerial-statement-on-the-independent-review-of-the-childrens-commissioner-for-england

[4] Am enghraifft o storïau sy'n arddangos effaith y toriadau gweler *Close to Crisis: Frontline service cuts for disabled children*, sef papur gwybodaeth gan Every Disabled Child Matters http://www.ncb.org.uk/edcm/close_to_crisis_frontline_service_cuts_for_disabled_children.pdf

# Cyd-destun

## Yr Alban

Llywodraeth yr Alban oedd y cyntaf yn y DU i ymateb i Arsylwadau Terfynol 2008 drwy gyhoeddi dogfen gynhwysfawr a oedd yn amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i weithio tuag at argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cafodd y ddogfen, "*Do the Right Thing*", ei llywio hefyd gan ymgynghoriad â'r sector plant yn yr Alban. Yn 2010 gwnaeth Llywodraeth yr Alban, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban (SCCYP) a Together (Cynghrair Hawliau Plant yr Alban) sefydlu Grŵp Monitro Gweithredu Hawliau Plant yr Alban i graffu'n barhaus ar gynnydd y Llywodraeth tuag at fodloni argymhellion a wneir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig.

Mae datganoli penderfyniadau yn 2007 yn yr Alban oddi wrth Lywodraeth yr Alban i'r awdurdodau lleol, a diwedd y cyllid wedi'i neilltuo yn sgil hynny, wedi arwain at anghysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn blaenoriaethu ac yn ariannu materion plant. Rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd o ran rhoi rhagor o flaenoriaeth i faterion plant, a hynny'n bennaf ym meysydd amddiffyn, addysg ac iechyd yn ail gylch y Cytundebau Canlyniad Sengl rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn yr Alban, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau a osodir ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae diffyg cysondeb o ran blaenoriaethau. Er enghraifft, mae blaenoriaethu materion sy'n gysylltiedig ag anabledd, iechyd meddwl, hawliau plant a cham-drin domestig yng Nghytundebau Canlyniad Sengl llawer o awdurdodau lleol yn parhau i achosi gofid[5]. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol gweithredu prosesau monitro ac adrodd, a fyddai'n galluogi'r Alban i gydymffurfio ag Erthygl 4 o CCUHP.

Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Hymgynghoriad ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Bydd y Mesur yn sefydlu cyfrifoldebau Gweinidogion yr Alban yn y gyfraith i ystyried CCUHP yn briodol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Bydd y Mesur yn sicrhau bod holl ddeddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth yr Alban yn ystyried hawliau plant a phobl ifanc. Mae Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban wedi croesawu'r ymrwymiad newydd hwn gan Lywodraeth yr Alban yn fan cychwyn defnyddiol a bydd yn gweithio i sicrhau bod y Mesur yn cael cymaint o effaith â phosibl drwy dderbyn y ddeddfwriaeth.

## Cymru

Yn 2009, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag Arsylwadau Terfynol 2008. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael ag 16 o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt rhwng y Llywodraeth a Sefydliadau Anllywodraethol.

Sefydlwyd Rhwydwaith Cefnogi Gweithredu yn ogystal, gyda chynrychiolwyr o'r tu mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth i gefnogi'r broses fonitro, gan edrych ar fesur perfformiad a chanlyniadau yn ogystal â sicrhau bod y cynllun gweithredu'n parhau i fod yn berthnasol.[6]

Y datblygiad allweddol arall yng Nghymru yw Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i ystyried yn briodol yr hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a'i Brotocolau Dewisol. Dyma dro cyntaf arall i Gymru, yn y flwyddyn y mae'n dathlu deng mlynedd ers sefydlu'r Comisiynydd Plant cyntaf yn y DU.

Bu'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn gadarnhaol ar y cyfan, er enghraifft Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n darparu mewn perthynas â thlodi plant, cyfranogiad a gwasanaethau i deuluoedd. Fodd bynnag, ceir cwestiynau o hyd am weithredu cyfraith a pholisi cenedlaethol mewn modd cyson.

Roedd rhaglen ddeddfu newydd Llywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o fesurau nodedig. Bydd Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi pwyslais arbennig ar wasanaethau integredig, gan gynnwys y rheini i deuluoedd ag anghenion cymhleth a phlant sy'n derbyn gofal. Cafwyd hefyd y cyhoeddiad am Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) a fydd, yn ôl Prif Weinidog Cymru:

*'…yn adeiladu ar y Mesur Hawliau Plant a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad diwethaf, ac yn ehangu rôl Comisiynydd Plant Cymru.'*

---

[5] Gwybodaeth a gafwyd oddi wrth Rwydwaith Swyddogion Polisi Sector Gwirfoddol y Plant (2010). Cytundebau Canlyniad Sengl ar gyfer Llywodraeth Leol yr Alban, 2009-10. Dadansoddiad thematig gan Rwydwaith Swyddogion Polisi Sector Gwirfoddol y Plant. Caeredin: Rhwydwaith Swyddogion Polisi Sector Gwirfoddol y Plant. http://www.sccyp.org.uk/uploaded_docs/single%20outcome%20agreements.pdf

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Gwneud Pethau'n Iawn: Cynllun Gweithredu Cymru 2009-2014 ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. http://wales.gov.uk/docs//dfm/minutes/childrenandyoungpeople/110117uncrcreporten.doc

## Cymryd rhan ym mhenderfyniadau

**Erthygl 12: Parch at farn y plentyn**
Mae gan bob plentyn yr hawl i ddweud ei farn ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i rywun gymryd ei farn o ddifrif.

***Dyma a ddywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2008***

Yn 2008, gwnaeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig nifer o argymhellion o ran cyfranogiad plant. Roedd y rhain yn cynnwys bod angen hyrwyddo, hwyluso a gweithredu egwyddor parch at farn y plentyn, a hynny mewn cyfraith ac mewn arfer, yn y teulu, mewn ysgolion, ac yn y gymuned a hefyd mewn sefydliadau ac achosion gweinyddol a chyfreithiol. Roedd hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi fforymau ar gyfer cyfranogiad plant ac i barhau i gydweithio â sefydliadau cymdeithas sifil i gynyddu cyfleoedd am gyfranogiad ystyrlon gan blant, gan gynnwys yn y cyfryngau.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion penodol hefyd i'r Llywodraeth gryfhau cyfranogiad plant ym mhob mater sy'n effeithio arnynt sy'n ymwneud â'r ysgol, yr ystafell ddosbarth a dysgu. Galwodd hefyd ar Lywodraethau i sicrhau bod plant sy'n gallu mynegi eu barn yn cael yr hawl i apelio yn erbyn eu gwaharddiad yn ogystal â'r hawl i apelio i dribiwnlysoedd anghenion addysgol arbennig, a hynny'n enwedig i'r rheini mewn gofal amgen.

Mewn ymateb i Gynllun Gweithredu'r DU yn 2009, ymrwymodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i ystyried sut i gynyddu'r cyfleoedd am gyfranogiad, a hynny mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned.[7]

### Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

*A1. Mae'r Comisiynwyr Plant yn galw am ddeddfwriaeth newydd i sicrhau bod y mecanweithiau a'r strwythurau ar waith ym mhob un o weinyddiaethau'r DU i ymgorffori'r hawl i gyfranogiad ym mywydau plant, a bod ymrwymiad o'r fath yn cael ei gefnogi gan hyfforddiant cyfranogi i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant neu ar ran plant.*

Er 2008, gwnaethpwyd rhai newidiadau deddfu cadarnhaol ynghylch cyfranogiad plant, ac erbyn hyn mae 24 y cant o blant yr Alban yn credu bod gwleidyddion yn gwrando arnynt (er bod 30 y cant yn credu nad ydynt yn gwrando arnynt o gwbl).[8] Yng Nghymru, mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn sail statudol i gyfranogiad plant ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol.[9] Ledled y DU, mae Llywodraethau, mewn rhai meysydd, wedi deddfu ar gyfer gweithgareddau cyfranogi, llunio canllawiau ar eu cyfer, ac weithiau yn eu hariannu.[10] Ond eto, cyfyng yn aml fu cwmpas y mentrau hyn ac er bod rhai plant yn cael llais mewn rhai penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, nid yw cyfranogiad wedi cael ei ymgorffori mor llawn ym mywyd pob plentyn yn effeithiol ac yn gyson. Dyma her arbennig mewn meysydd allweddol megis agweddau ar y system cyfiawnder ieuenctid, y gwasanaethau diogelu a chyfraith teulu.[11]

Mae'r Comisiynwyr Plant yn poeni nad yw cyfranogiad plant wedi cael ei brif ffrydio eto a bod plant yn sôn nad yw eu barn yn cael ei cheisio, nad oes neb yn gwrando arni nac yn gweithredu yn ei chylch yn gyson. Mae angen newid deddfwriaethol ac arweinyddiaeth glir gan lywodraethau cenedlaethol a lleol a sefydliadau eraill fel nad yw cyfranogiad yn dibynnu ar unigolion ond ei fod, yn y pen draw, ymhlith yr egwyddorion sy'n sail i'r ffordd y mae pob oedolyn yn gweithio gyda phlant.

Mae angen mynd i'r afael â'r bwlch rhwng safonau Erthygl 12 a phrofiad plant drwy gyfuniad o strategaethau a strwythurau cenedlaethol ym mhob un o'r gwledydd, a hynny'n seiliedig ar ddeddfwriaeth sy'n sicrhau eu hawl i gyfranogi.

Os yw'r uchelgais hwn am gael ei wireddu, mae'n amlwg bod angen hyfforddiant cynhwysfawr mewn cyfranogiad plant ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant neu ar ran plant. Cred y Comisiynwyr Plant felly fod angen ymgorffori cyfranogiad yn y rhaglenni hyfforddi cyn-gymhwyso i bob oedolyn sy'n gweithio gyda phlant, ynghyd â deunyddiau i gefnogi cyfranogiad yn ymarferol.

*A2. Mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth yn y DU fynd i'r afael â darpariaeth eiriolaeth anghyson yn y pedair gwlad a ledled y pedair gwlad. Efallai y bydd angen deddfwriaeth newydd i wneud hyn neu gamau amlwg i weithredu a gwireddu darpariaethau a wnaed eisoes mewn cyfraith.*

Mae Comisiynwyr Plant y DU yn poeni bod eiriolaeth i blant yn cael ei chyflenwi'n anghyson ledled y pedair gwlad er bod safonau a deddfwriaeth genedlaethol yng Nghymru a Lloegr.[12] [13] Lle nad oes hawl cyfreithiol i eiriolaeth – fel yng Ngogledd Iwerddon – mae angen mynd i'r afael â hyn. Os oes hawl, mae angen sicrhau bod eiriolaeth ar gael i'r holl blant cymwys. Mae tystiolaeth dda bellach sy'n dangos y canlyniadau negyddol sy'n dod i'r amlwg i blant pan na allant leisio eu barn.[14]

Mae'r Comisiynwyr Plant yn cydnabod mai proses hirdymor, efallai, fydd darparu eiriolaeth i bob plentyn.[15] Er bod rhywfaint o ddeddfwriaeth mewn gwahanol rannau o'r DU, nid yw'n cael ei gweithredu'n llawn ac mae llawer o grwpiau o blant y tu allan i gwmpas y gyfraith ar hyn o bryd. O ganlyniad, yn y datblygiad hirdymor tuag at wireddu'r uchelgais hwn, mae'r Comisiynwyr Plant yn chwilio am weithredu cynnar i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu darparu i'r plant mwyaf ymylol ac agored i niwed, gan gynnwys plant anabl.

---

[7] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2009) *United Nations Convention on the Rights of the Child: priorities for action*, https://www.education.gov.uk/publications/standard/Integratedworking/Page1/DCSF-01084-2009

[8] Youthlink Scotland (2009), *Being Young in Scotland*.

[9] Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents

[10] Adroddiad Canol Tymor CCUHP y Comisiynwyr Plant 2011 – Y Dystiolaeth.

[11] Davey et. al. i Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2010) *Children's participation in decision-making: a summary report on progress made up to 2010*.

[12] Brady L (2011) '*Where is my advocate? A scoping report on advocacy's services for children and young people in England*. Llundain. Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr.

[13] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://wales.gov.uk/caec/publications/childrenandyoungpeople/advocacy/advocacystandardsen.pdf?lang=en

[14] Comisiynydd Plant Cymru (2011) Ar Goll Ar Ôl Gofal; Abertawe Comisiynydd Plant Cymru. http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/250.pdf

[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc; Caerdydd.

Mae'n rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth y gall pob Llywodraeth ei chyflawni cyn 2014.

*A3. Mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth addo y bydd yn parhau i ddatblygu cyfranogiad effeithiol plant mewn addysg. Dylai pob plentyn yn y DU gael hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad o'r ysgol neu benderfyniad ynghylch ei Anghenion Addysgol Arbennig.*

Er y bu ychydig o gynnydd wrth ddatblygu cyfranogiad plant mewn addysg,[16] cred Comisiynwyr Plant y DU fod angen gwneud cynnydd pellach. Er bod strwythurau fel Cynghorau Ysgol wedi'u sefydlu (a'u bod yn wir yn orfodol yng Nghymru), mae angen ymgorffori cyfranogiad plant ym mhob agwedd ar ddysgu a'r ysgol. Yn Lloegr, dim ond dau o bob pum plentyn sy'n ystyried bod Cynghorau Ysgol yn effeithiol [17] ac yn yr Alban dim ond lleiafrif o Gynghorau Ysgol sydd wedi'u cynnwys ym mhenderfyniadau 'pwysig'.[18] Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Comisiynydd Plant wrthi'n gweithio gyda'r Adran Addysg i ddatblygu canllawiau polisi cynghorau ysgol. Erbyn hyn, mae gan blant yng Nghymru'r hawl i wneud eu hapeliadau eu hunain i Dribiwnlys Anghenion Arbennig Cymru fel sy'n wir yn yr Alban, ond nid yw'r datblygiad hwn wedi cael ei ddyblygu eto ledled y gwledydd eraill.[19] Dylid sefydlu'r hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad o'r ysgol i'r holl ddisgyblion ysgol uwchradd ledled y DU.

*A4. Mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth weithredu hawl plant yn effeithiol i gymryd rhan mewn achosion cyfreithiol ac achosion llys.*

Mae tystiolaeth o'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru a Lloegr yn amlygu bod plant yn teimlo, mewn achosion cyfraith cyhoeddus a phreifat, nad yw'r oedolion sy'n gwneud penderfyniadau pwysig am eu bywydau yn gwrando ar eu lleisiau.[20] Mae hyn yn dangos yn amlwg nad yw hawliau plant yn cael eu gweithredu'n llawn ac mae hyn yn achosi dicter a rhwystredigaeth i'r plant oherwydd nad yw eu barn yn cael ei cheisio. Teimlant yn ddi-rym ac yn siomedig. Mae plant yn sôn hefyd am beidio â chael gwybodaeth ddigonol neu glir gan oedolion a allai eu helpu i gyfranogi mewn prosesau o'r fath.[21] Cred y Comisiynwyr Plant ei bod yn rhaid i hawl y plentyn i gael ei glywed, cael ei gydnabod yn gyson a'i weithredu'n effeithiol ym mhob cam o'r broses ac maent yn galw ar y Llywodraeth ac asiantaethau eraill i weithredu ynghylch lleisiau plant.

[16] Gweler er enghraifft *Improving Scottish Education,* Arolygiaeth Addysg yr Alban EM (2009),.

[17] Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2011), *Children and young people's views of education policy*.

[18] Plant yn yr Alban a Phrifysgol Caeredin (2010) *Having a Say at School*.

[19] Mesur Addysg (Cymru) 2009. http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/5/pdfs/mwa_20090005_mi.pdf

[20] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011) *Family Justice Review Interim Report* Mawrth 2011: Llundain: y Weinyddiaeth Gyfiawnder. http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/policy/moj/family-justice-review-interim-rep.pdf

[21] Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2011c) *Do more than listen. Act.* Llundain: Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr. http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_514

## Plant ag anableddau

**Erthygl 23: Plant ag anableddau**
Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus mewn amodau sy'n hyrwyddo urddas, annibyniaeth a rhan weithgar yn y gymuned. Mae'n rhaid i lywodraethau wneud popeth y gallant i ddarparu gofal a chymorth am ddim i blant ag anabledd.

***Dyma a ddywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2008***

Croesawodd y Pwyllgor fentrau a gynlluniwyd i sylweddoli hawliau plant anabl, ond cododd bryderon am y diffyg strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer eu cynnwys yn y gymdeithas. Roedd yn galw ar Blaid y Wladwriaeth i sicrhau bod rhaglenni, gwasanaethau a deddfwriaeth sy'n eu hamddiffyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Nododd y Pwyllgor fod plant anabl yn parhau i wynebu rhwystrau rhag mwynhau eu hawliau, yn enwedig o ran mynediad i wasanaethau iechyd, hamdden a chwarae priodol. Mynegodd y Pwyllgor bryder am y gyfran uchel o blant mewn gofal amgen a galwodd am asesu'r rhesymau dros hyn, ac am adolygu eu gofal a'u triniaeth yn y safleoedd hyn.

Roedd argymhellion eraill yn canolbwyntio ar yr angen i hybu ymwybyddiaeth am hawliau ac anghenion plant anabl i annog eu cynhwysiant ac i atal gwahaniaethu a sefydliadeiddio. Ystyriwyd ei bod yn allweddol adnabod anableddau ac anghenion cymorth ychwanegol yn gynnar, a hefyd bod angen hyfforddiant i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant anabl – gan gynnwys athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr meddygol proffesiynol.

Roedd y Pwyllgor yn annog y Llywodraeth i ddilysu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i Brotocol Dewisol, ac i sicrhau ei bod yn parhau i gydymffurfio â safonau rhyngwladol eraill ar anabledd.

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

*A5. Mae'n rhaid gwarchod y gwasanaethau a'r cymorth sy'n galluogi plant anabl i fwynhau eu hawliau rhag toriadau gwariant cyhoeddus.*

Roedd cydadroddiad y Comisiynwyr Plant i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig (2008) yn amlygu rhwystrau rhag gwasanaethau priodol i blant anabl. Nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn, a gallai effaith toriadau gwariant cyhoeddus waethygu'r problemau o ran gallu defnyddio gwasanaethau. Er gwaethaf ymrwymiadau'r llywodraeth ganolog a'r llywodraethau datganoledig a lleol i geisio sicrhau na fydd diwygiadau i wasanaethau na phenderfyniadau gwariant yn effeithio'n anghymesur ar blant anabl, dywed y Comisiynwyr Plant fod pryderon a thystiolaeth gynyddol i'r gwrthwyneb. Nid yw'r Comisiynwyr Plant yn credu bod hyn yn dderbyniol a chredant y dylid gwarchod gwasanaethau i blant anabl rhag toriadau pellach.

*A6. Dylai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ddatblygu strategaethau cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer cynnwys plant anabl yn y gymdeithas.*

Mae'r Comisiynwyr Plant yn nodi'r cynnydd ar wella hawliau pobl anabl ers 2008. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a dilysu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i Brotocol Dewisol yn enghreifftiau teilwng. Fodd bynnag, mae'r Comisiynwyr Plant yn siomedig am oedi'r DU parthed addysg o fewn y Confensiwn.

Er bod y gweinyddiaethau datganoledig wedi cymryd camau ac wedi mabwysiadu rhaglenni gyda'r nod o amddiffyn gwasanaethau i blant anabl yn well, prin fu'r cynnydd cydlynol ledled y pedair gwlad. Mae pryderon difrifol yn parhau am weithredu'r cynlluniau prin sy'n bodoli. Mae'n amlwg nad oes strategaethau cenedlaethol cynhwysfawr ar blant anabl wedi cael eu gweithredu, ac nad yw gwasanaethau a pholisïau a ddatblygir yn benodol i bobl anabl bob amser yn adlewyrchu anghenion arbennig plant.

Mae'r Comisiynwyr Plant yn galw ar bob llywodraeth i ddatblygu a gweithredu strategaeth genedlaethol i sicrhau bod plant anabl ledled y DU yn elwa ar ymagwedd gyson a chydlynol. Elfen allweddol o hyn fydd dod o hyd i ffyrdd heb fod yn ymwthiol o gasglu data am nifer y plant y mae angen cymorth arnynt a natur eu hanableddau. Dylai hyn sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn briodol ac yn bellgyrhaeddol i fodloni anghenion pob un plentyn sy'n eu cael.

*A7. Mae'n rhaid datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddiant proffesiynol cyn gynted â phosibl i staff sy'n gweithio gyda phlant anabl.*

Yn aml, mae gan weithwyr proffesiynol ddiffyg hyfforddiant, sgiliau a phrofiad i gyfathrebu â phlant anabl ac i ddeall natur eu hanableddau. Er i rai gweinyddiaethau gydnabod y mater hwn i raddau, mae angen sicrhau ar unwaith fod pob gweithiwr proffesiynol yn cael ei hyfforddi a'i baratoi i wasanaethu plant anabl i'r safonau uchaf posibl.

I gyrraedd y nod hwn, mae'r Comisiynwyr Plant yn galw ar bob llywodraeth i sicrhau bod rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn cael ei sefydlu i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant anabl. Dylai'r hyfforddiant gael ei lywio gan brofiadau plant mewn safleoedd gofal iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol a dylai annog gweithwyr proffesiynol i ystyried y ffordd orau o ymgynghori â phlant a'u cynnwys yn y trefniadau ar gyfer eu gofal. Dylai'r hyfforddiant gael ei gyflenwi'n rhannol o leiaf gan blant anabl a dylai ymdrin â materion amddiffyn plant sy'n benodol iddynt hwy.

*A8. Mae'n rhaid i bob llywodraeth a gweinyddiaeth hyrwyddo ac amddiffyn hawl plant i gael eu clywed mewn materion sy'n effeithio arnynt.*
Mae'r Comisiynwyr Plant yn galw am gynnwys pob plentyn anabl mewn penderfyniadau am ei ofal er mwyn cyflawni Erthyglau 12 a 23 o CCUHP. Dylai gwasanaeth eiriolaeth fod ar gael i blant pe gallai fod yn anodd iddynt fynegi eu barn fel arall. Dylai mecanweithiau cwyno fod yn agored ac yn hygyrch i bob plentyn. Nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae gormod o blant anabl yn wynebu loteri cod post ar gyfer cymorth a darpariaeth. Cred y Comisiynwyr Plant y dylai pob gweinyddiaeth ganolbwyntio'n arbennig ar roi cymorth i blant ag anawsterau cyfathrebu a'r rheini sy'n byw oddi cartref.

## Tlodi plant

**Erthygl 27: Safon byw digon da**
Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i fodloni eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai llywodraethau helpu teuluoedd os nad oes ganddynt y modd i ddarparu hyn.

**Erthygl 4: Amddiffyn hawliau**
Mae'n rhaid i lywodraethau wneud popeth y gallant i fodloni hawliau pob plentyn, gan gynnwys defnyddio cymaint o'r adnoddau â phosibl sydd ar gael iddynt.

***Dyma a ddywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2008***

Cydnabu'r Pwyllgor y gostyngiad yn niferoedd y plant sy'n byw mewn tlodi hyd at 2008 a'r camau a gyfrannodd at hyn. Roedd lefelau tlodi plant yn ei ddychryn o hyd ac roedd yn poeni nad oedd strategaeth Llywodraeth yn canolbwyntio ar y plant yn y tlodi mwyaf difrifol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd darparu safon byw digon da. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth osod targedau mewn deddfwriaeth i ddileu tlodi plant erbyn 2020, gyda dangosyddion mesuradwy a ffocws ar y plant hynny ag arnynt yr angen mwyaf am gymorth. Dylid gweithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol, gan gyfuno cymorth i deuluoedd â chymorth uniongyrchol, yn arbennig maeth, dillad a thai.

Er iddo gydnabod y gwariant cynyddol ar blant, nododd y Pwyllgor na fu hwn yn ddigon i ddileu tlodi nac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Yn sgil diffyg dadansoddi cyllidebol cyson ac asesiadau o effaith ar hawliau plant, bu'n anodd pennu faint oedd yn cael ei wario ar blant. Argymhellodd y dylai'r Llywodraeth ddyrannu cymaint o adnoddau â phosibl i blant, gan ganolbwyntio ar ddileu tlodi plant a lleihau anghydraddoldeb.

Nododd y Pwyllgor fwlch o ran gwireddu hawliau plant ar gyfer plant mewn tlodi. Roedd yn cysylltu hyn â darpariaeth gwasanaethau annigonol i blant a theuluoedd tlawd. Roeddent yn poeni y gallai rhai plant gael eu cymryd i ofal am fod teuluoedd mewn argyfwng oherwydd tlodi, bod mynediad anghyfartal at wasanaethau iechyd yn arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth i blant tlawd, a bod cefndir cymdeithasol yn parhau i effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau addysgol.

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

*A9. Dylai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig weithredu Deddf Tlodi Plant 2010 yn llawn.*

Mae'r Comisiynwyr Plant yn nodi nad yw tlodi plant yn y DU wedi gostwng ers eu hadroddiad yn 2008 (wrth ddefnyddio 60 y cant o'r incwm canolrif ar ôl costau tai) a bod y lefelau wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd.[22] Ni chyflawnwyd yr ymrwymiad hanesyddol i haneru tlodi plant erbyn 2010.

Er bod y Ddeddf Tlodi Plant yn ddatblygiad a groesawyd yn gynnes, braidd yn siomedig fu ei gweithredu hyd yma.[23] Mae gan bob un o'r strategaethau cenedlaethol wendidau sylweddol, a hynny'n gyffredin o ran troi bwriadau polisi yn gyflawniad mewn perthynas â thargedau.[24] Mae'r Comisiynwyr Plant yn poeni hefyd fod agweddau allweddol ar y Ddeddf yn gwanhau, sef yr oedi wrth sefydlu'r Comisiwn Tlodi Plant a'i rôl a'r gofynion adrodd ar Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'n allweddol i'r strategaethau gael eu gweithredu'n llawn a sicrhau nad yw'r Ddeddf yn cael ei gwanhau. Dylent fynd i'r afael yn arbennig â'r plant hynny yr effeithir arnynt yn fwyaf sylweddol – y rheini mewn tlodi difrifol a/neu mewn tlodi parhaus.[25] Mae'n rhaid casglu data i sicrhau y gellir monitro tlodi plant difrifol a thlodi plant parhaus.

*A10. Dylid dyrannu digon o adnoddau ariannol i fynd i'r afael â thlodi plant ledled y DU, ariannu gwasanaethau a dargedir at y rhai dan yr anfantais fwyaf, a chynyddu incwm cartref teuluoedd tlawd.*

Mae'n amlwg o'r diffyg cynnydd diweddar nad oes digon o adnoddau wedi'u dyrannu i'r nod hwn.[26] Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyfeirio adnoddau ariannol ychwanegol at fynd i'r afael â thlodi plant, ac mae'n rhaid iddynt nodi'r gwariant hwn yn glir yng nghyllidebau llywodraeth. Dylai hyn olygu bod modd monitro gwariant ar blant tlawd, ac asesu a yw'n gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'n rhaid bod asesiadau o effaith ar bolisïau a rhaglenni tlodi plant newydd wrth wraidd y broses o weithredu a monitro strategaethau – nid yn unig y rheini a fwriedir i fynd i'r afael â thlodi plant, ond polisïau eraill sy'n effeithio ar eu bywydau, a hynny efallai'n fwy uniongyrchol.

Mae'r Comisiynwyr Plant yn poeni'n arbennig am ddatblygiadau mewn perthynas â diwygio'r system les gan gynnwys Mesur Diwygio Lles 2011.[27] Er bod lefelau budd-daliadau wedi bod islaw trothwyon tlodi a Safonau Incwm Gofynnol yn gyson, mae lefelau budd-daliadau'n cael eu rhewi neu eu lleihau, ac mae amodau ychwanegol yn cael eu cyflwyno. Byddai asesiad o effaith pob un o'r newidiadau hyn ar hawliau plant yn dangos mai'r canlyniad mwyaf tebygol fydd rhagor o dlodi plant. Bydd y newidiadau hyn yn y system yn effeithio ar blant mewn aelwydydd di-waith ac ymhlith aelwydydd 'tlawd sy'n gweithio', ac mae'n rhaid eu hailystyried yng ngoleuni'r ymrwymiadau a amlinellwyd yn Neddf Tlodi Plant 2010.

---

[22] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (2011) *Households Below Average Income Report.*

[23] Am feirniadaeth o weithredu'r Ddeddf, gweler y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (CPAG) a CPAG Scotland am bapurau gwybodaeth a datganiadau. http://www.cpag.org.uk/.

[24] Joyce, R., y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2011*), Poverty projections between 2010–11 and 2013–14: a post-Budget 2011 update*; a Brewer et al, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2010) *Child and Working-Age Poverty from 2010 to 2013.* http://www.ifs.org.uk/bns/bn115

[25] NPI ac Achub y Plant (2011) *Severe Child Poverty: Nationally and Locally.*

[26] Achub y Plant (2010) *A Child Poverty Strategy 2011-2014 Recommendations for the UK government: No child left behind.*

[27] Am feirniadaeth o gynllunio diwygio lles cyfredol, gweler y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (CPAG) a CPAG Scotland am bapurau gwybodaeth a datganiadau. http://www.cpag.org.uk/.

*A11. Mae'n rhaid i lywodraethau flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer plant tlawd i fynd i'r afael ag ystod eang o anghydraddoldeb yn eu canlyniadau iechyd ac addysg.*

Mynegodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig bryder am y ffyrdd y gwahaniaethwyd yn erbyn plant tlawd o ran darparu gwasanaethau a bodloni eu hawliau. Yn arbennig, cododd bryder ynghylch tri maes: cymorth i deuluoedd, iechyd ac addysg.[28] Mae'r canlyniadau negyddol a gaiff plant mewn tlodi yn adlewyrchu'r problemau mwy sylweddol a wynebant, gan gynnwys heriau sylweddol o ran mynediad i wasanaethau.

Ar adeg o dorri gwasanaethau cyhoeddus, mae'n rhaid i lywodraethau roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau i'r plant dan yr anfantais fwyaf, sef y rheini sydd mewn tlodi. Dylid parhau hefyd i graffu'n fanwl ar hygyrchedd gwasanaethau i blant, er mwyn sicrhau bod rhwystrau i blant sydd mewn tlodi yn cael eu nodi a'u goresgyn. Dylid canolbwyntio'n arbennig ar gostau defnyddio gwasanaethau, a dylid eu hepgor i blant mewn tlodi.

[28] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig (2008) ar Hawliau'r Plentyn, Y nawfed sesiwn a deugain, ystyried adroddiadau a gyflwynwyd gan Bleidiau Gwladol o dan Erthygl 44 o'r Confensiwn. Arsylwadau Terfynol: Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

## Plant sy'n ceisio lloches

**Erthygl 22: Plant sy'n ffoaduriaid**
Os yw plentyn yn ffoadur neu'n ceisio lloches, mae'n rhaid i lywodraethau sicrhau ei fod yn cael yr un hawliau ag unrhyw blentyn arall. Mae'n rhaid i lywodraethau helpu i geisio ailgysylltu plant sy'n ffoaduriaid â'u rhieni. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid amddiffyn y plentyn.

**Erthygl 35: Cipio**
Mae'n rhaid i lywodraethau sicrhau na chaiff plant eu cipio, eu gwerthu na'u masnachu mewn unrhyw fodd.

***Dyma a ddywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2008***

Amlygodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig bryderon ynghylch y diffyg gweithredu yn erbyn canfyddiadau cyhoeddus negyddol mewn perthynas ag Erthygl 2, peidio â gwahaniaethu. Fodd bynnag, roedd ei brif ffocws ar Erthygl 22. Roedd y Pwyllgor yn poeni am gadw plant mudol a phlant sy'n ceisio lloches a'r annigonolrwydd yn y broses a gwneud penderfyniadau o ran achosion o blant digwmni y mae anghydfod ynghylch eu hoedran. Galwodd y Pwyllgor ar Blaid y Wladwriaeth y DU i sicrhau bod dulliau diogelu yn eu lle i amddiffyn lles plant ar ôl iddynt ddychwelyd, ac i ystyried penodi gwarcheidwaid i ymfudwyr a cheiswyr lloches digwmni.

Ar Erthygl 35, argymhellodd y Pwyllgor weithredu'n effeithiol Gynllun Gweithredu Ewrop ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl a dilysu'n llawn ei Gonfensiwn ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

*A12. Dylai Llywodraeth y DU, mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig, weithredu a gwerthuso'r trefniadau newydd ar gyfer diogelu a symud teuluoedd mewn perthynas â CCUHP a safonau rhyngwladol.*

Bu cynnydd sylweddol o ran deddfwriaeth a pholisi mewn perthynas ag Erthygl 22. Roedd gwaredu cymal cadw Llywodraeth y DU yn gam sylweddol a groesawyd.[29] Ym mis Mai 2010, aeth Llywodraeth y DU i'r afael ag un o brif feirniadaethau'r Pwyllgor, gan gyhoeddi y byddai'n rhoi'r gorau i gadw plant at ddibenion mewnfudo.[30] Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer y system newydd ym mis Mawrth 2011.[31] Efallai nad yw cynigion y Llywodraeth fel y'u hamlinellir yn rhoi'r gorau'n gyfan gwbl i roi plant dan gadwad, ond ni welwyd eto a yw'r broses newydd yn bodloni gofynion Erthygl 37(b) neu'n bodloni argymhelliad y Pwyllgor yn 2008.

Mae Comisiynwyr Plant y DU yn croesawu bwriad adran 55 o Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2008, sy'n gosod dyletswydd ar Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA) i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant wrth wneud ei gwaith. Gallai'r ddeddfwriaeth hon a'r cyfarwyddyd ategol effeithio'n sylweddol ar sicrhau budd pennaf plant (Erthygl 3), ond fel y dengys dyfarniadau llys diweddar mae angen gwneud cryn dipyn eto i'w gweithredu.[32]

I ddangos bod y ddau ddatblygiad polisi buddiol hyn wedi arwain at welliannau, bydd angen i Blaid y Wladwriaeth y DU ddangos sut mae'n monitro ac yn gwerthuso proses a gweithrediad adran 55. Byddai'r Comisiynwyr Plant yn disgwyl i hyn gynnwys barn plant yr ystyrir eu symud.

*A13. Dylai Llywodraeth y DU fynd ati i adolygu'n drwyadl y trefniadau cyfredol i bennu oedran gyda'r bwriad o sicrhau bod plant digwmni sy'n ceisio lloches yn cael eu trin fel y cyfryw ac yn cael eu hawliau fel plant.*

Roedd hwn ymhlith argymhellion y Comisiynwyr Plant yn 2008 ac mae'n flaenoriaeth o hyd.[33] Prin yw'r cynnydd a wnaed ar y mater hwn, os o gwbl.[34] Gan nad oes unrhyw gyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol ar bennu oedran mewn unrhyw awdurdodaeth yn y DU, nid yw'n syndod bod tystiolaeth yn awgrymu nad yw awdurdodau'n amharod yn gyson i gredu gair person ifanc sy'n honni ei fod yn blentyn.[35] Mae angen egluro a sefydlu rôl a chyfrifoldebau UKBA, awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol cyn gynted â phosibl.

*A14. Dylid rhoi digon o gyllid i lywodraeth leol ac awdurdodau priodol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad i wasanaethau priodol, gan gynnwys gwarcheidwaid a chyngor cyfreithiol annibynnol.*

Er bod llawer o wasanaethau o ansawdd uchel ledled y DU i blant sy'n ffoaduriaid ac sy'n ceisio lloches, mae'r Comisiynwyr Plant yn poeni y gallai penderfyniadau gwariant anodd effeithio'n anghymesur ar y rhain.[36] Mae'n holl bwysig diogelu eu cyllid os yw ymrwymiad Plaid y Wladwriaeth i CCUHP i gael ei wireddu.[37] Codwyd y pryder hwn gan y Comisiynwyr Plant yn 2008 ac mae'n bwysig o hyd o ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol.[38]

Mae gallu defnyddio cymorth, eiriolaeth a chyngor annibynnol yn allweddol o ystyried pa mor agored i niwed yw'r grŵp hwn o

[29] Am effaith y cyhoeddiad hwn gweler: http://www.unicef.org.uk/Archive/UK-Government-withdraws-reservations-to-UNCRC/

[30] Swyddfa'r Cabinet (Mai 2010), *The Coalition: our programme for government.* Gweler hefyd ddatganiad y Dirprwy Brif Weinidog i Dŷ'r Cyffredin ar 16 Rhagfyr 2010 a *Ending Child Immigration detention* Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Adran Materion Cartref, nodyn SN/HA/5591 a osodwyd ar 21 Rhagfyr 2010.

[31] Gweler cyhoeddiad UKBA 28 Chwefror 2011: http://www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/newsarticles/2011/march/03new-family-returns-process

[32] Gweler yr achosion y cyfeirir atynt yn y llythyr oddi wrth Gymdeithas yr Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo (ILPA) i Brif Weithredwr Asiantaeth Ffiniau'r DU, Jonathan Sedgwick, *Re: The Welfare and Best interests of Children* (18.03.11). Hefyd dyfarniad y Llys Goruchaf yn *ZH (Tanzania) –v- SSHD* (2011, UKSC 4).

[33] (Mehefin 2008) Adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, A93.

[34] *IMB Harmondsworth* (Ebrill 2011) Papur a gyflwynwyd i Is-grŵp Cadwad y Consortiwm Plant sy'n Ffoaduriaid 8 Ebrill 2011; Y Cyngor Ffoaduriaid (Ebrill 2011) *Presentation delivered to the Refugee Children's Consortium Detention sub-group 8 April 2011.*

[35] Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr yn dibynnu ar hyn o bryd ar ddyfarniadau canlynol y Llys Goruchaf – *UKSC 8 (2009) R (on the application of 'A')(FC) (Appellant) –v- London Borough of Croydon (Respondents) and R (on the application of 'M')(FC) (Appellant) –v- London Borough of Lambeth.*

[36] Cyngor Ffoaduriaid Prydain (2011) *Evaluation of the SMILE project*.

[37] Gweler er enghraifft y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010), *Refugees and Asylum Seekers – A review from and equality and human rights perspective*; Cymdeithas y Plant (2008), *Living on the edge of despair – destitution amongst refugee and asylum seeking children*.

[38] (Mehefin 2008) *Adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, A*98.

blant.[39] Dylai holl weinyddiaethau'r DU ddarparu gwarcheidwad cyfreithiol a fyddai'n cael ei benodi cyn gynted ag yr adnabyddir plentyn digwmni sy'n ceisio lloches. Dylid cynnal y trefniadau nes bod y plentyn yn 18 neu wedi gadael y DU yn barhaol. Mae'n hanfodol darparu gwarcheidwad i'r plant hyn. Ni wnaethpwyd cynnydd o gwbl gan Lywodraeth y DU yn hyn o beth.[40] Fodd bynnag, mae'r Comisiynwyr Plant yn croesawu'r prosiect peilot a gefnogir gan Lywodraeth yr Alban, a lansiwyd yn 2010, ac mae'n dymuno gweld pob gweinyddiaeth yn dilyn yr esiampl hon.[41] Mae Comisiynydd Plant Gogledd Iwerddon yn rhan o weithgor sy'n archwilio model gwarcheidwaeth.

*A15. Dylai Llywodraeth y DU fonitro ei hymrwymiad i Gonfensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.*

Mae'r Comisiynwyr Plant yn croesawu dilysiad Llywodraeth y DU o Gonfensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl. Fodd bynnag, mae angen gwneud cynnydd pellach gan nad oes unrhyw fecanwaith monitro ffurfiol ategol wedi'i weithredu.[42] Mater sy'n achosi'r un gofid yw'r diffyg uchelgais i wella'r modd yr adnabyddir ac yr amddiffynnir plant sy'n ddioddefwyr a'r gallu i ymchwilio i'r troseddau masnachu mewn plant, a'u herlyn yn llwyddiannus, a ddangosir yn Strategaeth Masnachu mewn Pobl Llywodraeth y DU sydd, yn ôl ei natur, yn ymdrin â Chymru a Lloegr yn unig.[43] Rydym yn cydnabod camau Llywodraeth Cymru i wella dealltwriaeth, ac wedi hynny, i wella ymatebion priodol gan wasanaethau, ond mae angen i'r cynnydd hwn fod yn gyson ledled y DU.[44] Dylai Llywodraeth yr Alban arwain a chydlynu'r gwaith ar fasnachu mewn plant yn yr Alban, gan gynnwys hwyluso a hyrwyddo ymateb amlasiantaeth i fasnachu mewn plant yn lleol.[45]

---

[39] Nodir pwysigrwydd Pleidiau Gwladol a'r safonau a ddisgwylir ganddynt yn yr Ohebiaeth o'r Comisiwn i Senedd Ewrop a'r Cyngor (Mai 2010) *Action Plan on Unaccompanied Minors (2010 – 2014)* SEC (2010)534.

[40] Er enghraifft, trowch at y Memorandwm Esboniadol dyddiedig 28 Mai oddi wrth Damien Green, Gweinidog Mewnfudo i drafodaeth Pwyllgor Craffu Ewrop ar Gynllun Gweithredu'r UE. http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmeuleg/428/428i80.htm

[41] Am fanylion cynllun peilot gwarcheidwaeth Llywodraeth yr Alban gydag Aberlour gweler: http://www.aberlour.org.uk/scottishguardianshipservice.aspx

[42] Mae'r Comisiynwyr wedi nodi eu siom am y Datganiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ei bod yn credu bod y trefniadau presennol yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb yr UE ar atal ac ymladd masnachu mewn pobl ac amddiffyn ei ddioddefwyr. Gweler *Hansard May 9 2011, Column 976*.

[43] Y Swyddfa Gartref (2011) *Human Trafficking: the Government's Strategy*.

[44] SSIA, Grŵp Adolygu Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, (2010) *Protocol Cymru Gyfan: Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches ac yn Ffoaduriaid.*

[45] Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban a'r Ganolfan Plentyndod Gwledig yng Ngholeg UHI Perth (2011) *Scotland: A safe place for child traffickers? A scoping study into the nature and extent of child trafficking in Scotland.*

## Cyfiawnder plant

**Erthygl 37: Cadw**
Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei arteithio nac yn dioddef unrhyw gosb neu driniaeth greulon arall. Dim ond fel dewis olaf ac am yr amser byrraf posibl y bydd plentyn yn cael ei arestio neu ei garcharu. Ni cheir rhoi plant mewn carchar gydag oedolion ac mae'n rhaid iddynt fedru cadw cysylltiad â'u teulu.

**Erthygl 39: Adsefydlu plant sydd wedi dioddef**
Mae'n rhaid rhoi cymorth arbennig i blant a esgeuluswyd, a gam-driniwyd, y cam-fanteisiwyd arnynt, a arteithiwyd neu sydd wedi dioddef oherwydd rhyfel, er mwyn eu helpu i wella eu hiechyd, eu hurddas a'u hunan-barch.

**Erthygl 40: Cyfiawnder plant**
Mae'n rhaid i blentyn a gyhuddir o dorri'r gyfraith neu sy'n euog o dorri'r gyfraith gael ei drin ag urddas a pharch. Mae ganddo'r hawl i gael cymorth cyfreithiwr a phrawf teg sy'n ystyried ei oedran neu ei sefyllfa. Mae'n rhaid parchu preifatrwydd y plentyn bob amser.

***Dyma a ddywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2008***

Roedd gan y Pwyllgor bryderon am gyfiawnder ieuenctid gan gynnwys bod yr oedran cyfrifoldeb troseddol yn rhy isel, achosion lle gellid rhoi plant ar brawf mewn llys oedolion, cyfraddau uchel o gadw yn y ddalfa, niferoedd uchel ar remánd, plant yn y ddalfa heb gael yr hawl i addysg statudol, cynnig i waredu cyfyngiadau adrodd i blant 16 a 17 oed sy'n wynebu achos troseddol, a darpariaethau'r Mesur Gwrthderfysgaeth sy'n berthnasol i blant. Roedd yr argymhellion yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau bod Plaid y Wladwriaeth yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol yn enwedig Erthyglau 37, 39, a 40 o CCUHP.

Roedd y Pwyllgor yn poeni am Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) yn arbennig o ran pa mor hawdd y cânt eu rhoi, yr ystod eang o ymddygiad gwaharddedig, a'r ffaith bod torri gorchymyn yn dramgwydd troseddol gyda chanlyniadau difrifol posibl. Nid ystyriwyd bod gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol er budd pennaf y plentyn (Erthygl 3) a chytunwyd y gallent gyfrannu at arwain rhywun i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Pryderwyd bod y rhan fwyaf o'r gorchmynion hyn yn cael eu gosod ar blant o gefndiroedd dan anfantais. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Plaid y Wladwriaeth adolygu gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'r bwriad o'u diddymu i blant.

**Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu**

*A16. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd camau ar unwaith i ail-gyfeiriadu'r system cyfiawnder plant ym mhob gwlad er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn troi at droseddu, drwy ganolbwyntio ar atal a dargyfeirio.*

Mae'r Comisiynwyr Plant yn nodi'r gwahaniaeth sylweddol rhwng systemau cyfiawnder ieuenctid mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar fin cael newidiadau a allai effeithio'n sylweddol ar gyflenwi cyfiawnder ieuenctid yn yr awdurdodaethau hyn.[46] Mae'r Comisiynwyr Plant yn galw am roi rhagor o bwyslais ar atal troseddu ac ar ddargyfeirio i ffwrdd o'r system ffurfiol. Mae'n bosibl bod y gostyngiad yn y blynyddoedd diwethaf yn nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid a'r ddalfa (yng Nghymru a Lloegr) wedi digwydd o ganlyniad i fuddsoddiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) mewn amrywiaeth o gynlluniau dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar.[47] Yn yr un modd, mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Ngogledd Iwerddon wedi ymrwymo i ddewisiadau yn lle erlyn drwy amrywiaeth o waredïadau cynyddol sy'n dargyfeirio plant oddi wrth brosesu troseddol ffurfiol, gan gynnwys cynadledda ieuenctid.[48]

Fodd bynnag, mae'r Comisiynwyr Plant yn siomedig mai yng Nghymru a Lloegr y mae un o'r cyfraddau uchaf o garcharu plant yng Ngorllewin Ewrop o hyd, a bod cynlluniau fel y rheini yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i gael problemau o ran eu heffeithiolrwydd, yn enwedig o ran dargyfeirio plant oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ffurfiol.[49] Mae'r Comisiynwyr Plant yn annog y Llywodraethau yn San Steffan, Belfast a Chaerdydd i ymateb i'r corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos bod cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol a chael cofnod troseddol yn cael effaith negyddol sylweddol ar fywyd cyfan plentyn, ac yn aneffeithiol o ran aildroseddu.[50]

Cytuna'r Comisiynwyr Plant fod system gwrandawiadau plant yr Alban yn fwy effeithiol yn dargyfeirio plant oddi wrth erlyniad, ond eto hyd yn oed yn yr Alban nid oes ymagwedd genedlaethol gyson at atal a dargyfeirio, ac nid yw ymagweddau allweddol fel *Getting It Right For Every Child* (GIRFEC) yn cael eu cymhwyso'n gyson. Mae'n rhaid gwneud rhagor o ymdrech ym mhob gwlad i ddargyfeirio plant oddi wrth y llysoedd a/neu system gwrandawiadau plant.[51]

*A17. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig weithio gydag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod cysondeb a pharhad gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a'r gymuned ehangach, yn enwedig o ran defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac addysg.*

Er bod y gydberthynas rhwng addysg, troseddu ac aildroseddu wedi'u hen brofi, mae'r Comisiynwyr Plant yn poeni am gysondeb a darpariaeth addysg mewn safleoedd diogel a pharhad gyda gwasanaethau yn y gymuned.[52] [53] Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw plant yn y ddalfa'n cael hawl statudol i gael mynediad i Gwricwlwm Gogledd Iwerddon, ac yn Lloegr gall person ifanc sydd yn y ddalfa golli ei ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Yn yr Alban, nid yw'r ddyletswydd i ddarparu addysg o dan Reolau Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc

---

[46] Er enghraifft, gweler y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Rhagfyr 2010) *Breaking the ycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders.*

[47] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB), (2011) *Youth Justice Annual Workload Data* 2009/10 (D126)

[48] Swyddfa Gogledd Iwerddon (2004) *Evaluation of Youth Justice Agency Services*

[49] Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (PRT) (Rhagfyr 2010 a Mehefin 2011) *Bromley Briefings Prison Factfile;* NICCY (2011) *Submission to the Youth Justice review Consultation.*

[50] Am grynodeb o'r dystiolaeth gweler PRT/ Out of Trouble (2011) *Reducing child imprisonment conference* papers: http://www.outoftrouble.org.uk/learn/library/publications/reducing-child-imprisonment-conference

[51] McAra, L a McVie, S, (2007) *Youth Justice? The impact of system contact on patterns of desistance from offending*, European Journal of Criminology, 4 (3) 315 – 45.

[52] YJB (2006) *Barriers to engagement in education, training and employment.*

[53] Swyddfa safonau mewn addysg, gwasanaethau plant a sgiliau (Ofsted) (2010) *Transition through detention and custody: arrangements for learning and skills for young people in custodial or secure settings.*

(yr Alban) 2006 yn ddigon cryf. Mae’r Comisiynwyr Plant yn poeni am ansawdd ac ehangder yr addysg sydd ar gael yn y ddalfa ac yn credu bod gan y Llywodraeth rôl i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn well ymhlith safleoedd cadw a rhwng safleoedd cadw a’r gymuned.

Mae’r Comisiynwyr Plant yn credu bod digon o dystiolaeth i awgrymu nad yw’r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl i blant a dynnir i mewn i’r system cyfiawnder ieuenctid yn ddigon da yn unrhyw ran o’r DU.[54] Mynegir pryderon am annigonolrwydd y ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl i blant a’r glasoed, a hynny mewn sefydliadau cadw a’r gymuned ehangach.[55] [56] Cyfrifoldeb pob Llywodraeth yw mynd i’r afael â’r amrywiad helaeth ym math, lefel ac ansawdd y mesurau a roddir ar waith i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl da plant yn y system cyfiawnder ieuenctid ac yn benodol i blant sydd yn y ddalfa.

*A18. Mae’n rhaid i bob Llywodraeth gymryd camau ar unwaith i sicrhau bod pob plentyn yn y ddalfa’n cael ei drin yn drugarog a bod ei hawliau’n cael eu parchu.*

Mae Plaid y Wladwriaeth y DU yn llofnodwr i Brotocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i’r Confensiwn yn erbyn Artaith a Mathau Eraill o Gosb neu Driniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) ac wedi’u hymrwymo gan gytundeb rhyngwladol i sicrhau bod plant yn y ddalfa’n cael eu trin yn drugarog. Er bod y Comisiynwyr Plant yn cydnabod yr ymrwymiad i’r egwyddor hon yn y pedair awdurdodaeth i gyd, awgryma profiadau’r rheini yn y ddalfa bod angen gwneud llawer rhagor. Mae’r Comisiynwyr Plant yn nodi, dan ofidio, yr adroddiadau a ddogfennwyd sy’n disgrifio profiadau negyddol plant mewn safleoedd cadw ledled y pedair awdurdodaeth. Maent yn poeni’n arbennig am orddefnyddio rheolaeth ac ataliaeth gorfforol, noeth chwilio ac arwahanu, a hynny mewn modd anghyson, yn ogystal â phrinder eiriolwyr. Cred y Comisiynwyr Plant fod triniaeth o’r fath yn annerbyniol. Mae’n rhaid i bob Llywodraeth wneud popeth yn ei grym i fynd i’r afael â hyn ar unwaith.

---

[54] Er enghraifft, gweler Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (2010) *Not a Marginal Issue: Mental Health and the Criminal Justice System in Northern Ireland*.

[55] Harrington, R., a Bailey, S. (2005) *Mental health needs and effectiveness provision for young offenders in custody and in the community*.

[56] Berelowitz, S. a Hibbert, P. (2011): *“I think I must have been born bad” - Emotional wellbeing and mental health of children and young people in the youth justice system*
Ar gael yn:
http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_503

# Casgliad

Byddwn yn cadw at ein hymrwymiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2008 i barhau i asesu a monitro cynnydd y Blaid Wladol yn annibynnol.

Byddwn yn parhau i bwyso ar ein Llywodraethau i sicrhau bod yr holl hawliau plant yn cael eu deall a'u mwynhau'n llawn ledled y DU.

Byddwn yn parhau i gynghori Plaid y Wladwriaeth y DU ar ddatblygu polisi ac arfer sy'n canolbwyntio ar hawliau a budd pennaf plant.

Ac yn olaf ac yn bwysicaf, byddwn bob amser yn codi ein lleisiau pan fyddwn yn gweld achosion newydd neu barhaus o dorri hawliau plant a throseddu yn eu herbyn.

## Egwyddorion Cyffredinol: Cymryd rhan ym mhenderfyniadau

*A1. Mae'r Comisiynwyr Plant yn galw am ddeddfwriaeth newydd i sicrhau bod y mecanweithiau a'r strwythurau ar waith ym mhob un o weinyddiaethau'r DU i ymgorffori'r hawl i gyfranogiad ym mywydau plant, a bod ymrwymiad felly'n cael ei gefnogi gan hyfforddiant cyfranogiad i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant neu ar ran plant.*

*A2. Mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth yn y DU fynd i'r afael â darpariaeth eiriolaeth anghyson yn y pedair gwlad a ledled y pedair gwlad. Efallai y bydd angen deddfwriaeth newydd i wneud hyn neu gamau amlwg i weithredu a gwireddu darpariaethau a wnaed eisoes mewn cyfraith.*

*A3. Mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth addo y bydd yn parhau i ddatblygu cyfranogiad effeithiol plant mewn addysg. Dylai pob plentyn yn y DU gael hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad o'r ysgol neu benderfyniad ynghylch ei Anghenion Addysgol Arbennig.*

*A4. Mae'n rhaid i bob gweinyddiaeth weithredu'n effeithiol hawl plant i gyfranogi mewn achosion cyfreithiol ac achosion llys.*

## Iechyd a Lles Sylfaenol: Plant ag anableddau

*A5. Mae'n rhaid gwarchod y gwasanaethau a'r cymorth sy'n galluogi plant anabl i fwynhau eu hawliau rhag toriadau gwariant cyhoeddus.*

*A6. Dylai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ddatblygu strategaethau cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer cynnwys plant anabl yn y gymdeithas.*

*A7. Mae'n rhaid datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddiant proffesiynol cyn gynted â phosibl i staff sy'n gweithio gyda phlant anabl.*

*A8. Mae'n rhaid i bob llywodraeth a gweinyddiaeth hyrwyddo ac amddiffyn hawl plant i gael eu clywed mewn materion sy'n effeithio arnynt.*

## Iechyd a Lles Sylfaenol: Tlodi plant

*A9. Dylai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig weithredu Deddf Tlodi Plant 2010 yn llawn.*

*A10. Dylid dyrannu digon o adnoddau ariannol i fynd i'r afael â thlodi plant ledled y DU, i ariannu gwasanaethau a dargedir at y rhai dan yr anfantais fwyaf, a chynyddu incwm cartref teuluoedd tlawd.*

*A11. Mae'n rhaid i lywodraethau flaenoriaethu gwasanaethau i blant tlawd i fynd i'r afael ag ystod eang o anghydraddoldeb yn eu canlyniadau iechyd ac addysg.*

## Mesurau Amddiffyn Arbennig: Plant sy'n ceisio lloches

*A12. Dylai Llywodraeth y DU, mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig, weithredu a gwerthuso'r trefniadau newydd ar gyfer diogelu a symud teuluoedd mewn perthynas â CCUHP a safonau rhyngwladol.*

*A13. Dylai Llywodraeth y DU fynd ati i adolygu'n drwyadl y trefniadau cyfredol i bennu oedran gyda'r bwriad o sicrhau bod plant digwmni sy'n ceisio lloches yn cael eu trin yn briodol ac yn cael yr hawliau sy'n ddyledus i blant.*

*A14. Dylid rhoi digon o gyllid i lywodraeth leol ac awdurdodau priodol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu derbyn gwasanaethau priodol, gan gynnwys gwarcheidwaid a chyngor cyfreithiol annibynnol.*

*A15. Dylai Llywodraeth y DU fonitro ei hymrwymiad i Gonfensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.*

## Mesurau Amddiffyn Arbennig: Cyfiawnder plant

*A16. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd camau ar unwaith i ailgyfeiriadu'r system cyfiawnder plant ym mhob gwlad er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn troi at droseddu, drwy ganolbwyntio ar atal a dargyfeirio.*

*A17. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig weithio gydag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod cysondeb a pharhad gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a'r gymuned ehangach, yn enwedig o ran mynediad i wasanaethau iechyd meddwl ac addysg.*

*A18. Mae'n rhaid i bob Llywodraeth gymryd camau ar unwaith i sicrhau bod pob plentyn yn y ddalfa'n cael ei drin yn drugarog a bod ei hawliau'n cael eu parchu.*

Swyddfa'r Comisiynydd Plant

33 Greycoat Street
London, SW1P 2QF

T: 020 7783 8330
F: 020 7931 7544
E: info.request@
childrenscommissioner.gsi.gov.uk

www.childrenscommissioner.gov.uk

NICCY

Equality House
7-9 Shaftesbury Square
Belfast, BT2 7DP

T: 028 9031 1616
F: 028 9031 4545
E: info@niccy.org

www.niccy.org

SCCYP

85 Holyrood Road
Edinburgh, EH8 8AU

T: 0131 558 3733
F: 0131 556 3378
E: info@sccyp.org.uk

www.sccyp.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth, Ffordd Phoenix,
Llansamlet
Abertawe, SA7 9FS

Maenor Penrhos,
Oak Drive, Bae Colwyn
Conwy, LL29 7YW

T: 01792 765600
F: 01792 765601
E: post@complantcymru.org.uk

www.complantcymru.org.uk